Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Gorffennaf 2009
Rhifyn 28

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost office@dvsc.co.uk

Newvol - Cwmni cyfyngedig drwy warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lindsay Haveland

Cyngor a chyfarwyddyd ar y Pandemig Ffliw

Ar 29 Ebrill cododd Sefydliad Iechyd y Byd lefel y rhybudd o bandemig o 4 i 5. Mae hyn yn golygu bod pob gwlad yn cael eu cynghori i weithredu eu cynlluniau paratoi gan fod posibilrwydd y gallai'r achosion o Ffliw Moch droi'n bandemig.

Mae'r cyngor a'r cyfarwyddyd yn cael eu diweddaru'n gyson – ewch i'r gwefannau hyn am yr wybodaeth ddiweddaraf:

Mae gwybodaeth am Ffliw Moch, gan gynnwys adran Cwestiynau Cyffredin, ar gael ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol _http://www.nphs.wales.nhs.uk/

Mae gwybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ffliw Moch ar gael ar http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicablediseases/swine/?lang=cym

Pandemig Ffliw: gwybodaeth ategol i fudiadau trydydd sector
Mae'r canllaw, a ddatblygwyd gan yr Adran iechyd, wedi'i gyhoeddi yng Nghymru. http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_099094

Y Gronfa Loteri Fawr – Syniad y Teulu Mawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi rhyddhau £150,000 i gefnogi prosiect a fydd yn trawsnewid bywyd teuluol. Mae Syniad y Teulu Mawr yn gwahodd awgrymiadau gan unrhyw un ar sut i wella bywyd teuluol ar adeg pan ddywed trefnwyr Wythnos Genedlaethol y Teulu nad oes gan y rhan fwyaf o rieni ddigon o amser i'w dreulio gyda'i gilydd fel teulu. Mae hwn yn gynllun sy'n weithredol ar draws y DU, a phe bai'r syniad buddugol yn dod o hyd i fudiad sy'n barod i weithredu arno, a phe bai'r Gronfa Loteri Fawr yn cytuno ei fod yn brosiect y byddai'n barod i'w gefnogi, yna byddai £150,000 ar gael.

Er mai dim ond trwy fudiad y rhoddir y grant, gall unrhyw un o bob oed neu gefndir gynnig y syniad cychwynnol. Gall y syniad fod yn un lleol neu gall ei fudd neu ei arwyddocâd fod yn genedlaethol. Gall fod yn ddigwyddiad, prosiect, gwasanaeth, ymgyrch, neu unrhyw beth perthnasol. Gellir cyflwyno syniadau unrhyw bryd rhwng hyn a 31 Gorffennaf 2009. Dim ond un syniad a ganiateir gan bob person. Manylion pellach ar y wefan http://www.nationalfamilyweek.co.uk/view.The-Big-Family-Idea

(Ffynhonnell: fundinginformation.org, 3 Mehefin 09/ e.hysbys CGGC 15/6/09)

Cronfa Ymddiriedolaeth Baily Thomas

Mae'r gronfa'n cefnogi prosiectau sy'n ymdrin ag anabledd dysgu, sy'n cael ei ddiffinio fel anawsterau dysgu difrifol ac awtistiaeth. Rhoddir grantiau i brosiectau sy'n gweithio â phlant ac oedolion, a rhoddir arian at: waith cyfalaf/ adeiladu/atgyweirio cartrefi preswyl, nyrsio a gofal seibiant ac ysgolion; cynlluniau cyflogi, gan gynnwys gwaith coed, crefftau, argraffu a garddwriaeth; cynlluniau chwarae a chynlluniau therapi chwarae; canolfannau gweithgareddau dydd a chymdeithasol, gan gynnwys costau adeiladu a chostau rhedeg; cymorth i deuluoedd, gan gynnwys cynlluniau gofal seibiant; cynlluniau byw'n annibynnol; cynlluniau cefnogaeth yn y gymuned a phyllau nofio a therapi dŵr ac ystafelloedd snoezelen. Derbynnir ceisiadau gan elusennau cofrestredig. Mae ragor o fanylion ar gael ar http://www.bailythomas.org.uk/
(Ffynhonnell: Charity Funding Report, Issue 88 /e.hysbys CGGC 15/6/09)

Cynhadledd Sgiliau Sylfaenol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru

Dydd Mercher 23 Medi 2009, Y Pafiliwn, Llandrindod

Byddwch yn rhan o rwydwaith sy'n tyfu o fudiadau sy'n hoff o wneud gwahaniaeth. Bydd yn cynnwys gweithdai a siaradwyr diddorol. Manteisiwch ar y cyfle i ddysgu mwy am yr hyn mae'r prosiect wedi'u gyflawni. Cewch hefyd gyfle i godi'ch llais ac i ddweud eich dweud. Manylion pellach gan Joanne Jones, Ysgrifennydd Gweinyddol – Sgiliau Sylfaenol, ffôn 01352 744018, e-bost joanne.jones@flvc.org.uk.

Pentref SOS: Y Gronfa a'r BBC yn cydweithio i adfywio pentrefi Gwledig

Mae cynllun newydd gan y Gronfa Loteri Fawr i helpu chwech o bentrefi gwledig ar draws y DU i adfywio eu cymunedau trwy fentrau busnes newydd yn lansio heddiw mewn partneriaeth gyda BBC One.

Rydym hefyd yn chwilio am unigolion mentrus â gweledigaeth i ddod yn 'Hyrwyddwyr Pentref' a gweithio gyda phentrefi i helpu i gyflawni eu huchelgeisiau o ddechrau busnes gwledig llwyddiannus. Bydd BBC One yn cofnodi siwrnai'r chwe phentref a'u Hyrwyddwyr Pentref ar gyfer cyfres bwysig ar deledu brig yn ystod gaeaf 2010.

Bydd Pentref SOS yn herio pentrefi i feddwl am syniadau gwych ar gyfer busnesau newydd er mwyn helpu i adfywio eu cymunedau, y mae llawer ohonynt yn gweld bywyd gwledig yn cael ei erydu gan bwysau economaidd a chau amwynderau lleol.
Bydd Pentref SOS yn gwahodd cymunedau gwledig sydd â llawer o frwdfrydedd a syniad busnes gwych - o fanwerthu i weithgynhyrchu, y celfyddydau i hamdden - i ymgeisio am arian y Loteri er mwyn dod â bywyd newydd i'w hardal, creu swyddi newydd a gwella ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol.

Bydd deunaw o bentrefi yn cael eu gosod ar y rhestr fer i dderbyn grant datblygu o hyd at £10,000, a byddant yn dewis 'Hyrwyddwr Pentref' i weithio gyda hwy er mwyn datblygu eu syniadau. Ym mis Mai 2010, dyfernir arian y Loteri i chwe phrosiect o hyd at £400,000 a bydd eu Hyrwyddwyr Pentref perthynol yn symud i'r pentrefi am flwyddyn i'w helpu i droi eu syniad busnes yn realiti. cynllun y Gronfa Loteri Fawr at ariannu tri dyfarniad yn Lloegr ac un yr un yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban mewn pentrefi gyda phoblogaeth o hyd at 3,000. Bydd proses ymgeisio am grant y Gronfa Loteri Fawr a chwiliad y BBC am Hyrwyddwyr Pentref yn lansio Ddydd Llun 1 Mehefin 2009 ac yn cau ar 14 Awst 2009. Mae gwybodaeth ar sut i ymgeisio i'w chael yn www.bbc.co.uk/villagesos.

Hyfforddiant MIND Dyffryn Clwyd Gorffennaf - Hydref 2009

Hyfforddiant ASIST Cost: £185 - £75 os heb gyflog	
10 a 11 Medi	**Plas Hafod Yr Wyddgrug**
8 a 9 Hydref	**Gwesty Beaches, Prestatyn**
22 a 23 Hydref	**Clwb Pel Droed Wrecsam**

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cost: £100 Statudol £75 Gwirfoddol	
23 a 24 Gorffennaf	**Eirianfa Dinbych**
17 a 18 Medi	**Swyddfa Mind Llanrwst**
22 a 23 Hydref	**Gorsaf Dân Y Rhyl**

I sicrhau eich lle neu i gael manylion pellach cysylltwch â :-
Carol Evans, Rheolwr, Mind Dyffryn Clwyd, Gwasanaeth Gwledig Allanol , 4 Lôn Rosemary, Dinbych LL16 3TT Ffôn: 01745 812461 **Ebost: mindrural@aol.com**

Am ragor o fanylion am y cyrsiau gwelir www.valeofclwydmind.org.uk am ASIST neu www.mhfa-wales.org.uk am Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

DEIAL I DEITHIO

Bydd Deial i Deithio (Dial a Ride) Gogledd Sir Ddinbych Cyf yn cynnal eu Cyfarfod Blynyddol dydd Llun 27ain Gorffennaf 2009 yng Nghanolfan Gymunedol Rhuddlan. Bydd y cyfarfod yn dechrau am hanner dydd a gweinir cinio ysgafn i ddilyn. Croesawir enwebiadau ar gyfer cadeirydd, is-gadeirydd, ymddiriedolwyr ac aelodau'r pwyllgor ymgynghorol. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r swyddfa ar 01745 344222.

Prosiect Cartrefi Gwag

Derbyniodd Shelter Cymru Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yn 2008/09 a 2009/10 ar gyfer prosiect cartrefi gwag Cymru gyfan. Mae hwn yn brosiect sy'n strategol bwysig wrth gefnogi awdurdodau lleol i geisio defnyddio cartrefi gwag ar gyfer tai fforddiadwy, trwy gynnig cyngor am ddim, ymgynghoriaeth a chyfnewid arfer da er mwyn cyflymu'r gwaith presennol yn y maes hwn.
Am wybodaeth ar waith y prosiect, ewch i'n tudalennau gwe ar http://www.sheltercymru.org.uk/shelter/advice/pdetail.asp?cat=20 neu cysylltwch â Fiona Roberts, Swyddog Eiddo Gwag ar emptyhomes@sheltercymru.org.uk neu 01978 317907

Cymhorthfa cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd

Gogledd Cymru : Dydd Iau 15 Medi 2009, Technium CAST, Bangor

Mae WCVA mewn cydweithrediad â'r CGSau yn cynnal cymorthfeydd cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd ledled Cymru yn ystod yr hydref. Nod y cymorthfeydd yw annog mudiadau nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd i ymuno â'r cynllun. Mae Cymorth Rhodd yn galluogi elusennau i hawlio treth yn ôl ar roddion gan unigolion – am bob punt a roddir gall yr elusen hawlio 28c yn ychwanegol oddi wrth Dollau Tramor a Chartref EM.

Yn ystod cyfnod o ddirwasgiad mae'n bwysig bod y sector yn manteisio ar bob ffynhonnell incwm, yn enwedig rhoddion gan unigolion, er hynny amcangyfrifir bod £700 miliwn heb ei hawlio bob blwyddyn. Ar hyn o bryd gall elusennau hawlio Cymorth Rhodd ar roddion a wnaethpwyd hyd at chwe blynedd yn ôl – fodd bynnag, o fis Ebrill nesaf ymlaen bydd hyn yn gostwng i gyfnod o bedair blynedd – felly mae angen i elusennau wneud yn siŵr eu bod yn mynd ati i hawlio am bopeth sydd ar gael iddynt os nad ydynt am fod ar eu colled.

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Dollau Tramor a Chartref EM a Sefydliad Cymorth yr Elusennau (CAF) y rhwystr mwyaf sy'n atal elusennau rhag hawlio Cymorth Rhodd yw'r broses cyn cofrestru – canfod a deall yr wybodaeth berthnasol i'w galluogi i hawlio. Felly, pwrpas y cymorthfeydd cofrestru yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol i fudiadau i'w galluogi i gofrestru, i hawlio treth yn ôl, ac i hyrwyddo Cymorth Rhodd er mwyn sicrhau nad ydynt ar eu colled. Bydd dyddiadau a lleoliadau pellach yn cael eu cadarnhau yn y man. I gadw lle ar un o'r digwyddiadau, cysylltwch â Llinell Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, e-bost ekinsman@wcva.org.uk.

CYNGOR GOFAL CYMRU
CARE COUNCIL FOR WALES

Y Fframwaith Credydau a Chymwysterau – Adeiladu Cymwysterau i'r Dyfodol

Y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF) yw'r fframwaith rheoledig newydd ar gyfer cydnabod ac achredu cymwysterau ar draws pob sector. Menter gan y llywodraeth yw hon ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae'n cynnig cyfle cyffrous i gwrdd ag anghenion sy'n newid mor gyflym y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Mae dau achlysur gwybodaeth yng Nghymru (Gogledd a De) ym mis Gorffennaf i godi ymwybyddiaeth am y cymwysterau newydd.

Digwyddiad Gogledd Cymru
Dydd Iau 23 Gorffennaf
Venue Cymru, Llandudno
10.30am tan 3.30pm

Bydd y bore yn canolbwyntio ar egwyddorion y **Fframwaith Credydau a Chymwysterau**, ein cynlluniau i **ailddatblygu cymwysterau** a beth y bydd hyn yn ei olygu i'r sector.

Yn y prynhawn bydd gweithdy yn canolbwyntio'n fwy ar **agweddau technegol** y cymwysterau newydd – strwythur, strategaethau asesu ac yn y blaen.

Os hoffech fynychu'r digwyddiad cysylltwch â Gethin White yng Nghyngor Gofal Cymru.
Southgate House, Wood Street,
Caerdydd CF10 1EW

Erbyn dydd Gwener 10fed Gorffennaf
Gethin.white@ccwales.org.uk

Timau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn argoeli i arwain y ffordd o ran hyrwyddo 'ychwanegu at werth' y trydydd sector i Fyrddau Iechyd Lleol newydd

Ar 23 Ebrill, daeth Rhwydwaith Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol, Prif Swyddogion y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chynrychiolwyr o WCVA ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd yn Llandrindod ar gyfer cynllunio dulliau y byddant yn eu gweithredu yn ystod y broses o drosglwyddo'r GIG er mwyn sicrhau y caiff darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol y trydydd sector eu galluogi a'u cefnogi fel partneriaid hanfodol darpariaeth newydd y GIG yng Nghymru.

Yng nghanol y broses ddiwygio heriol hon, a osodwyd gan y Gweinidog Iechyd Edwina Hart, cafwyd trafodaethau bywiog ar y diwrnod, gyda chydweithwyr yn ystyried y prif feysydd y bydd angen canolbwyntio arnynt dros y chwe mis nesaf.

Rhoddodd Helen Howson, Pennaeth Iechyd Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyniad perthnasol ar gyfer y diwrnod: 'Gyda mwy a mwy o bwysau ar adnoddau ariannol, bydd angen i'r GIG a'i bartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, ystyried mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd ac yn llawn dychymyg er mwyn defnyddio'r holl adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer diwallu anghenion lleol.'

Bu hwyluswyr lleol a Phrif Swyddogion y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda'i gilydd fesul ardaloedd y byrddau iechyd lleol newydd mewn gweithdai er mwyn llunio cynigion lefel uchel ar gyfer y broses drosglwyddo gan ddefnyddio sylfaen strategaeth *Cynllun i Ychwanegu Gwerth* Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'i seilio ar eu gwybodaeth leol a Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Eglurodd hwylusydd sir Gaerfyrddin, Debbie Bence: 'Rydym mewn sefyllfa unigryw i ganfod ac ehangu enghreifftiau o arfer da ar draws ein hardaloedd BILI newydd priodol yn ogystal â pharhau i ddatblygu gwasanaethau arloesol a all ymateb i anghenion ein trigolion lleol.'

Mae WCVA, gyda'r trydydd sector, yn parhau ei ymgyrch i sicrhau cefnogaeth ac adnoddau digonol ar gyfer y sector er mwyn iddo gyfrannu'n llawn fel partner a chefnogi a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau yn ein cymunedau ledled Cymru yn y ffordd orau bosibl fel rhan o'r GIG newydd.

Meddai Constance Adams, Uwch Swyddog Polisi WCVA: 'Mae angen sicrhau y dyrennir cyllid ar gyfer y trydydd sector, er mwyn galluogi'r sector i weithredu fel partner cyfartal ar gyfer gweithredu dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun i Ychwanegu Gwerth - cyfeiriad strategol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol o ran cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol 2008*, sy'n datgan mai ei nod yw sicrhau: "Gweithio dynamig, arloesol, ymatebol a chynaliadwy o fewn y sector gwirfoddol mewn partneriaeth â chymunedau iechyd gan sicrhau gwell iechyd, lles ac annibyniaeth pobl a chymunedau ledled Cymru."

'Yr ydym yn gofyn i'r GIG dargedu 1 y cant o'u cyllideb er mwyn darparu adnoddau priodol i'r trydydd sector: gyda rhywfaint o'r cyllid hwn yn llifo'n genedlaethol ar gyfer meysydd penodol o ran darparu gwasanaeth a rhywfaint yn cael ei neilltuo, ond yn cael ei benderfynu arno'n lleol ar lefel Bwrdd y BILI.'

Sarah Timmis, Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol WCVA ddaeth â'r diwrnod i ben. Dywedodd: 'Bu'r diwrnod hwn yn gam cadarnhaol at sicrhau y caiff y trydydd sector ei ystyried fel partner cytbwys o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol yn y GIG yn y dyfodol. Mae'r trydydd sector yn darparu at wraidd yr agenda gweithredu'n lleol, yn aml i ddinasyddion a chanddynt yr angen mwyaf. Bydd helpu ein partneriaid i ddeall sut y gallwn ddarparu'r gwasanaethau hyn a sicrhau'r canlyniadau angenrheidiol yn hollbwysig o ran y camau nesaf.'
(ffynhonnell Rhwydwaith Cymru 20/05/09)

Mudiadau Cymru am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2009, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru.* Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol. Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Dyma'r categorïau:

- Gwobr Class ar gyfer y cyfathrebu gorau
- Y Wobr Werdd
- Y mudiad a edmygir fwyaf

Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA ym mis Rhagfyr. Roedd enillwyr y llynedd yn cynnwys Cartrefi Cymru , Cymdeithas Ponthafren, a Fairbridge De Cymru Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 18 Medi 2009. I dderbyn ffurflen enwebu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ewch i www.wcva.org.uk.

Cynhadledd Galar Gyntaf Gofal Galar Cruse Gogledd Cymru

Canolfan Gynhadledd Interchange, Hen Golwyn, Conwy, 30 Medi 2009

Fe drafodir y materion canlynol:

Beth a wyddom sy'n gweithio â phlant mewn galar -**David Trickey, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol.**

Cariad, colled a gwreiddiau galar cymhleth - **Colin Murray Parkes, Seiciatrydd Ymgynghorol.**

Ymchwil tair blynedd ar yr effaith o golli rhiant yn ystod plentyndod a sut yr effeithia hynny ar fywyd oedolyn - **Jackie Ellis, myfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Lerpwl**, lle y mae'n rhan o'r Grŵp Astudio Academaidd Gofal Lliniarol a Chefnogol (APSCSG)

Bydd y gynhadledd o fudd i unrhyw un sy'n gweithio ag oedolion neu blant mewn galar.

Am ffurflen archebu neu am fanylion pellach anfonwch e-bost at: crusenorthwales@btconnect.com neu ffoniwch 08445 617 856

Yng nghyfarfod **Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** a gynhaliwyd ar Orffennaf 1af, trafodwyd materion gwledig yn gyffredinol, a'r Cynllun Iechyd Gwledig Strategol drafft yn arbennig. Mae copïau o'r drafodaeth a'r pwyntiau a godwyd ar gael drwy gysylltu â Lindsay Haveland (lindsay@dvsc.co.uk; 01824 702441).

Cynhelir cyfarfod nesaf y Rhwydwaith **Ddydd Mercher, 14eg Hydref** yng Nghanolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, LL15 1AF i ddechrau am 10.15am, ag yn canolbwyntio ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, goblygiadau ardaloedd, a sut mae'r sector gwirfoddol yn mynd i gyfrannu i'r corff newydd. Byddwn hefyd yn edrych ar faterion Gofalwyr.

UNDEB CREDYD ARFORDIR CLWYD O WIRFODDOLWYR I WEITHWYR CYFLOGEDIG

Yn y flwyddyn ddiwethaf bu Stephen Yates, Caroline Berry a Paul Thomason yn Gwirfoddoli ar Bwyntiau Casglu Undeb Credyd Arfordir Clwyd.

Fis Medi diwethaf, pan ddaeth amryw o swyddi cyflogedig ar gael, bu'r tri'n llwyddiannus yn eu cais. Oherwydd eu profiad fel gwirfoddolwyr a'u lefel cymhwysedd uchel penodwyd y tri i'w swyddi presennol.

Yn ychwanegol i'w waith graenus ar y Pwynt Casglu yn y Brif Swyddfa yn Y Rhyl, mae Stephen hefyd yn profi ei werth ar y cyfrifiadur ag yn gaffaeliad mawr i'r Undeb Gredyd.

Mae Caroline hefyd yn gwella ei sgiliau cyfrifiadurol ag yn gallu paratoi sieciau a balans yn barod i'r Trysorydd.

Mae gwen barod Paul, wrth ei waith fel Casglwr Stepen Drws, yn ogystal â'i ymddygiad cwrtais yn profi'n boblogaidd iawn gyda'r aelodau.

Fel pob aelod arall o staff, mae'r tri yn ymwybodol o naws Undeb Credyd Arfordir Clwyd sydd o dan berchnogaeth yr aelodau fel mewn cydweithfa. Mae'r Undeb yn gwasanaethu'r aelodau i sicrhau adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i'w helpu i reoli eu harian eu hunain heb i hyn gostio llawer. Mae Undeb Credyd Arfordir Clwyd yn hunan gynhaliol er gwaetha'r argyfwng ariannol presennol sy'n effeithio llawer iawn. Mae'n Bwrdd Llywodraethwyr un sicrhau trefn lywodraethol dda yn ogystal â sicrhau fod ein gweithrediadau yn foesegol.

Drwy weithio'n agos â'i gilydd mae'r staff a'r bwrdd yn llwyddo i gyrraedd safon uchel yn unol â'n cod ymarfer, sy'n cael ei archwilio'n fanwl yn wythnosol gan ein Cadeirydd Goruchwylio (Archwiliad Mewnol).

Byddai Mrs Shirley Williams, eu Cydlynydd Gwirfoddoli, yn croesawu gwirfoddolwyr newydd ac os hoffech ragor o fanylion cysylltwch â hi ar 01745 361274

Llongyfarchiadau i Mrs Eurwen H Edwards OBE

Mrs Edwards, Is Lywydd ag Ymddiriedolwr CGGSDd, Cadeirydd Cist Gymunedol Clwyd, Is Gadeirydd CGGC ac ymddiriedolwr ac aelod gweithgar o nifer fawr o fudiadau gwirfoddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a anrhydeddwyd gyda'r OBE yn rhestr Pen blwydd y Frenhines. Hoffai Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGSDd, staff a gwirfoddolwyr fynegi eu llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ac mae pawb yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio'n agos â Mrs Edwards.

Rhai Ymgynghoriadau Cyfoes

A better future: a consultation on a future strategy for adults with autistic spectrum conditions http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_098707
Mae hwn yn ymgynghoriad ar strategaeth ar gyfer y dyfodol i gynorthwyo oedolion â chyflyrau'r sbectrwm awtistig i fyw bywydau llawn a chynhwysol ac i dderbyn gofal a chefnogaeth briodol. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar bum prif thema i gyflawni newid – iechyd, cynhwysiant cymdeithasol, dewis a rheolaeth, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant a mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan **15 Medi 2009**.

Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/accountandaudit/?lang=cy
Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 er mwyn ystyried datblygiadau ym maes adrodd ar faterion ariannol ac ar lywodraethu. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **31 Gorffennaf 2009**.

Ymchwiliad manwl i roi plant mewn gofal yng Nghymru http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp_3_placementofchildren-main.htm
Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw ymchwilio i effeithiolrwydd systemau yng Nghymru ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 11 Medi 2009.

Ymgynghoriad ar y Cynllun Iechyd Gwledig - darparu gwasanaethau yn well ar draws Cymru http://new.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/ruralhealth/?lang=en
Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd eich barn ar y ffyrdd mwy creadigol a awgrymir i ddarparu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol mewn ardaloedd gwledig. Mae tair prif thema wedi dod i'r amlwg: mynediad at wasanaethau; yr angen a chyfleoedd i gyfuno gwasanaethau'n fwy agos; a chydlyniant a chyfranogiad cymunedol. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 16 wythnos ac rydym yn gofyn nifer o gwestiynau ar ffurflen ar wahân i'n helpu i roi trefn ar yr ymatebion. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw dydd Gwener, **21 Awst 2009**. Dylech anfon eich ymatebion yn electronig i ruralhealth@wales.gsi.gov.uk:
(Ffynhonnell: IRH Newsflash, 21/5/09)

Ymgynghoriad ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/organdonation/?lang=en
Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 3 Awst.

Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Demensia Cenedlaethol Cymru http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/dementiaactionplan/?lang=cy
Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 11 Medi

Os ydych yn cael unrhyw anhawster i ddilyn y cysylltiadau neu i brintio dogfen ymgynghori cysylltwch ag unai Lindsay Haveland / Lilwen Roberts CGGSDd ar 01824 702441 a threfnir i gopi caled gael ei yrru i chi ar unwaith.

Cyfarfod Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Rhwydwaith ddydd Mercher 17 Mehefin 2009 yn Eirianfa, Dinbych. Yn dilyn yr agenda, trafodwyd y Sector Gwirfoddol a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, rôl cynrychiolwyr ar y Bartneriaeth a gwybodaeth am dair ffynhonnell ariannu. 'Roedd nifer o ymddiheuriadau, 13 o bobl yn bresennol yn cynrychioli 12 o fudiadau a 3 aelod o staff CGGSDd i hwyluso neu i roi cyflwyniad yn y cyfarfod.

Rhoddodd Suzanne amlinelliad cryno o Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych fel mae'n bodoli ar hyn o bryd. Drwy ddefnyddio siart troi gydag enwau'r gwahanol grwpiau gwaith sy'n ffurfio'r Bartneriaeth, ag sy'n bwriadu gwneud y gwaith o dan y Cynllun Sengl i Blant a Phobl Ifanc, eglurodd Suzanne beth oedd nod y grwpiau.

Hwylusir grwpiau lleol ar draws y Sir gan Suzanne ac Angela Delaney ond nid yw presenoldeb wedi bod yn gyson, ond rhoir ystyriaeth i rai pwyntiau defnyddiol o'r cyfarfod. Aeth Suzanne ymlaen i roi adborth ar gyfarfod prosiectau Cymorth sy'n eu helpu i gyfarfod targedau a gweithio'n agosach gyda'i gilydd. Gofynnodd a oedd pobl yn hapus gyda phroses Cymorth process a chanlyniadau'r panel grantiau fu'n cyfarfod yn ddiweddar. 'Roedd hi'n bur amlwg fod teimladau cymysg iawn ynglyn â'r holl broses, a chroesawodd yr aelodau'r cyfle i gael dweud eu dweud

Mae yna Rwydwaith Pleidwyr Cyfranogaeth, ond mae bob amser groeso i fwy o aelodau, fyddai'n sicrhau fod Cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn flaenllaw ar agenda unrhyw gyfarfod maent yn ei fynychu. Melanie Davies yw Swyddog Cyfranogaeth Barnardo's sy'n gallu cynnal cyrsiau hyfforddiant ar gyfranogaeth i unrhyw un sy'n gweithio â phlant neu bobl ifanc. 'Roedd Suzanne yn annog aelodau i fynychu'r cwrs.

Wedi'i sefydlu o amgylch grŵp llywio gwefan Difanc (www.youthden.com), mae grŵp Gwybodaeth a Chyfathrebu i edrych ar ffyrdd o wneud hyn. 'Roedd un aelod yn awyddus i ymuno â'r grwp ac fe drefnir i hyn ddigwydd yn fuan.

Mae'r Grwp Hyfforddiant a Gweithlu yn gwneud cais am Grant Bychan i gynnal rhaglen hyfforddiant (gweinyddir gan GGGSDd) yn cynnwys pynciau angenrheidiol i lawer o grwpiau barhau i weithredu, fydd yn agored i bawb, mwy na thebyg o fis Medi ymlaen. Ar hyn o bryd, mae nifer o grwpiau ambarél Blynyddoedd Cynnar yn eistedd ar y grwp a byddai croeso i gynrychiolwyr o'r sector ieuenctid gwirfoddol i ymuno.

Bydd y Fforwm Trafnidiaeth Wledig yn ystyried barn plant a phobl ar ran y bartneriaeth. Byddai is-grŵp Chwarae, Hamdden a Chyfoethogiad yn croesawu aelodau sector gwirfoddol.

Yr un yw'r sefyllfa gyda'r grwp anableddau, ac eto 'roedd un person yn awyddus i ymuno.

Mae gan y ddau Grwp Hawliau, i blant o dan 11oed ag i bobl ifanc dros 11oed, gynrychiolwyr o weithgorau eraill i ystyried hawliau grwpiau oedran o fewn y Cynllun Sengl yn ogystal â'r ymatebion i Arolygon Estyn (11+). Mae cynrychiolwyr o'r grwpiau yn eistedd ar y Bartneriaeth Strategol hefyd, ochr yn ochr â nifer o gynrychiolwyr cyrff statudol. Yn aml mae disgwyl i'r cynrychiolwyr gynrychioli barn yr holl sector gwirfoddol. Gan ein bod yn cydnabod fod hyn yn hynod anodd, byddai amrediad o gynrychiolwyr ar draws y sector yn galluogi cynrychiolwyr unigol i sefyll ar ran adran o'r sector, a rôl Suzanne yw sicrhau fod hyn yn bosib 'ag yn effeithiol.

Cyflwynodd Joy Williams whitebox, ffordd o godi arian drwy ddefnyddio peiriant chwilio ar eich gwefan. Am ragor o fanylion cysylltwch â JoyWilliams@whitedotbox.com

Cyflwynodd Sarah Breeze y Gronfa Wledig Allweddol i'r aelodau, cronfa cyfalaf sydd ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd heblaw Prestatyn a'r Rhyl. Mae Sarah yn gweithio o GGGSDd (sarahb@dvsc.co.uk) a byddai'n hapus i ddarparu gwybodaeth bellach.

Rhoddodd Maggie McQuillan gyflwyniad byr ar y rhaglen Porth Ymgysylltu lle mae grwpiau yn gallu tendro am grantiau i helpu i gael pobl yn ôl i waith. Hefyd yn gweithio o GGGSDd byddai Maggie (maggie@dvsc.co.uk), yn hapus i ddarparu gwybodaeth bellach.

Gorffennodd y cyfarfod am 4.15pm, gyda diolch i bawb a fynychodd ag i'r rhai a roddodd gyflwyniad.